CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am – 7:00 pm, nos Lun 27ain Gorffennaf 2026
Ystafell Gymunedol, Ysgol Bro Cinmeirch ac ar ZOOM

Yn bresennol: Arwel Davies (Cadeirydd), Ian Evans (Is-gadeirydd), Ceri Davies, Manon Davies, Bari Evans, Edmund Evans, Philip Williams, Rhian Wyn Jones, Helen Jones.

1. **Ymddiheuriadau:** Stephen Williams.

2. **Adran siarad cyhoeddus:** Dim.

3. **Cofnodion cyfarfod 29ain Mehefin 2026**

   Cynigiwyd y rhain fel cofnod cywir: Cynigiwyd: Arwel Davies Eiliwyd: Phil Williams

4. **Adolygiad o'r Asesiad Risg a'r Gofrestr Asedau**

   i. Asesiad Risg. Cymeradwywyd hyn.
   Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Edmund Evans
   ii. Cofrestr asedau. Diweddarwyd hwn gyda phryniannau diweddar a chost uwchraddio cysgodfeydd bysiau wedi'u huwchraddio.

   Cynigiwyd: Arwel Davies Eiliwyd: Ceri Davies

5. **Cyllid**

   i. Taliadau

a) Y Clerc (E.M. ab Owain) Tâl Gorffennaf 2026	£305.00
b) Costau'r Clec Gorffennaf 2026	£168.37
c) HMRC (VAT) Gorffennaf 2026	£102.20
d) Arwel Davies (cynghorydd) 2025-6	£208.00
e) Ian Evans (cynghorydd) 2025-6	£208.00

   Cynigiwyd: Manon Davies, Eiliwyd: Helen Jones

   ii. Balansau banc

   BMM: £31,143.53
   Elusennol: £7,561.42

6. **Byrddau arddangos am hanes lleol**

   Siaradodd Clwyd Wyn, o Amgueddfa Sir Ddinbych, â'r Cyngor am ei brofiad o gyfansoddi byrddau hanesyddol cymunedol. Byddai'n anfon ymlaen ffotograffau a deunyddiau hanesyddol defnyddiol eraill oedd gan yr amgueddfa ar ardal y Cyngor.

   Yn y cyfamser, byddai'r Clerc yn cael 3 dyfynbris ar gyfer 5 bwrdd gyda chyfleuster cod QR.

7. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Gweler atodiad 1.

8. **Priffyrdd**

   i. Gweler adroddiad y Cynghorydd Sir.

ii. Roedd y Cadeirydd hefyd yn cadw taenlen o atgyweiriadau ffyrdd heb eu gwneud ac yn gwahodd y Cynghorwyr i ychwanegu unrhyw ddarnau eraill o ffyrdd yr oedd angen eu hatgyweirio iddynt.

9. **Materion Cynllunio**

   O'r diwedd, roedd y Cadeirydd wedi derbyn ymateb gan Gyngor Sir Dinbych ynghylch gorfodi rheoliadau cynllunio yn y Paddocks, Caer Mynydd Saron. Roeddent wedi cael cyngor gan eu hadran gyfreithiol a oedd wedi dweud nad oedd ‘er budd y cyhoedd’ i erlyn. (Nid oedd ganddynt yr amser na’r arian i erlyn.)

10. **Arwydd Prion**

    Roedd y cadeirydd wedi cael pris o £76.00 +TAW am hyn. Byddai’n mynd yn ôl at y cyflenwr ac yn cael pris newydd gan fod angen arwydd llai.

11. **Arwyddion ffordd 30mya yn fflachio ar gyfer Ffordd Dinbych i Lanrhaeadr**

    Roedd y Cadeirydd wedi siarad â Ben Wilcox Jones a Becky Musgrave o Adran Priffyrdd Cyngor Sir Dinbych a byddent yn ymweld â’r safle.

12. **Llwybr troed a bin sbwriel ym Mhentre Llanrhaeadr**

    Byddai’r Cynghorydd Sir yn gweithio ar y materion hyn.

13. **Meinciau yn Stad Bodafon**

    Roedd y Cadeirydd wedi siarad â Chyngor Sir Dinbych a fyddai’n eu trwsio i’r llawr yn yr ychydig wythnosau nesaf.

14. **Materion brys a godwyd gan y Cynghorwyr:** Dim.

15. **Cyfarfod nesaf:** 28ain Medi 2026.

Atoddiad 1

Annwyl Gynghorwyr,
Tra dwi dal yn dod i arfer hefo'r swydd newydd oedden i'n meddwl faswn i yn gyrru rhyw adroddiad bach i chi o rhai o faterion o dan sylw yn y plwyf., rhai yn faterion newydd ar gweddill a sydd yn codi bob mis ers stalwm rwan.

1. De-fib tu allan i Siop y Pentre. Ar ol y cyfarfod mis diwethaf pan ddaeth hi'n amlwg bod y de-fib di bod off line ers mis ionawr nes i gyfarfod hefo Tomos Hughes o Save a life Wales wrth y siop a fi rwan sydd yn gyfrifol am neud yn siwr ei fod ar-lein ac yn barod i'w ddefnyddio. Paula sy'n gyfrifol am yr un wrth yr ysgol a fydd angen ei newid rhyw dro, Ma gen Paula pads ar gael iddo fo am rwan.
2. Falch o weld bod planning Rhiwlas wedi ei sortio or diwedd.
3. Bryn Glas Saron. Dwi wedi bod yn cerdded o gwmpas ac yn tynnu llunie o'r site yn Saron, mae o wir yn edrych yn ffler. hefyd mae na bryderon am be sydd di

gario yne a be sy'n tyfu yne. Dwi wedi gyrru ebost yn ei flaen am eglurhad llawn am beth sydd yne a be gynllunia sydd i dacluso'r lle a hefyd health and safety.

4. Er gwybodaeth, Mae na sawl cwyn ynghlyn a 9 Maes Y Felin wedi fy nghyraedd dros y mis diwethaf, ma na sawl ffenest di dorri yn y ty a golwg mawr yn yr ardd, Yn anffodus does na ddim llawer fedrai neud ar hyn o bryd oherwydd achosion heddlu ond dwi'n cadw golwg ar y ty hefo adran tai y cyngor.
5. Dwi'n gobeithio fu na ymchwil i ddisgyn cyflymdra drwy'r Glyn dros yr wythnosa nesa ma, dwi hefyd wedi holi am 'Stats Pentre Llanrhaeadr'
6. Da chi gyd wedi gweld ymateb y cynghor am Caer Mynydd erbyn hyn ac mae o'n un siomedig iawn i ddeud y lleiaf. Dwi'n edrych i mewn i'r mater yma i weld os oes na unrhywbeth fedrai ei neud, Mae Arwel wedi bod mewn cysylltiad hefo Elfed ynghlyn a hwn hefyd.
7. Dwi'n cyfarfod hefo Geriant Davies pennaeth addysg yr wythnos yma i drafod y ddwy ysgol yn y plwyf a be ydir diweddaraf hefo estynnu Ysgol Bro Cinmeirch.
8. Dwi hefyd yn disgwyl am adroddaid gan adran y priffyrdd am pryd mae gwaith yn debygol o ddigwydd yn y plwyf.

Ddaru Arwel a finne gyfarfod wythos diwethaf i drafod materion eraill y plwyf a sydd angen sylw y sir. Dwi'n gobeithio fydd na atebion i chi erbyn y cyfarfod nesa.
Mae Helen White Prif Weithredwr Sir Ddinbych allan hefo fi ar y 18eg of fis Awst, nai neud yn siwr o fynd a hi heibio'r safle.

Diolch

Ian